**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A LLWYTHO A PHARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024 (DIWYGIAD RHIF 4) 2026**

**RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wedi gwneud Gorchymyn wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1) i (2), 4, 32, 35, 36, 45, 46, 47, 49, 51, 52 a 53 a 124(1) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, a'r holl bwerau galluogi eraill ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu ac yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984 a fydd yn:-

1. Diwygio GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (CYDGRYNHOI) 2024, fel y’i diwygiwyd, ("y Gorchymyn Cydgrynhoi") trwy ddirymu'r Cynlluniau Gorchymyn AC63 dyddiedig 29/11/2024 ac AC64 dyddiedig 29/11/2024 a mewnosod y Cynlluniau Gorchymyn diwygiedig AC63 Diw 1 ac AC64 Diw 1.

2. Dynodi Mannau Parcio Deiliaid Trwydded Preswylwyr yn Unig o dan adran 45 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y nodir yn Atodlen 1 isod.

3. Cyflwyno cyfyngiad Aros Cyfyngedig 8am-8pm – uchafswm arhosiad 2 awr - dim dychwelyd o fewn 4 awr (Deiliaid Trwydded Preswylwyr wedi'u heithrio) a nodir yn Atodlen 2 isod.

4. Cyflwyno cyfyngiad Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho Ar Unrhyw Adeg fel y nodir yn atodlen 3 isod.

5. Amrywio'r cyfyngiad Gwahardd Aros Ar Unrhyw Adeg presennol i gyflwyno cyfyngiad Gwahardd Aros, Llwytho a Dadlwytho Ar Unrhyw Adeg fel y nodir yn atodlen 4 isod.

6. Diwygio Atodlen 3 y Gorchymyn Cydgrynhoi i ymgorffori'r strydoedd a restrir yn atodlen 5 isod (Parth 2) yn y rhestr o'r ardaloedd hynny sy'n ddarostyngedig i dâl trwydded.

Yn dilyn hysbysebu’r cynllun arfaethedig ar 4 Medi 2025, gwnaed y penderfyniad i wneud mân addasiad i’r cynllun. Mae’r diwygiad hwn yn dileu’r Bae Parcio i Breswylwyr â Thrwydded arfaethedig (8am–8pm) ar Heol Fynediad Sunnyside, ac yn lle hyn yn ymestyn y cyfyngiadau dim aros, llwytho na dadlwytho arfaethedig yn y lleoliad hwn. Ystyrir bod hyn yn angenrheidiol oherwydd diogelwch ar y ffyrdd er mwyn sicrhau llif rydd o draffig ac i gadw’r ffordd yn glir gyferbyn â mynediad arfaethedig i fae ambiwlans.

Mae copi o'r dogfennau a adneuwyd, gan gynnwys y Gorchymyn, y Cynllun a Datganiad o resymau’r Cyngor dros wneud y Gorchymyn, ar gael trwy gysylltu â residentpermit@bridgend.gov.uk neu ffonio’r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Ffôn: 01656 646363 (dyfynnwch y cyfeirnod TRA001-1501) neu o Dderbynfa’r Swyddfeydd Dinesig yn y cyfeiriad a roddir isod yn ystod oriau swyddfa, neu gellir eu gweld ar-lein yn: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.

Os cewch unrhyw anhawster wrth ymateb yn ysgrifenedig, neu os oes angen i chi gael yr hysbysiad mewn fformat arall er enghraifft, print bras, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gyfreithiol ar y cyfeiriad isod (Cyf:TRA001-1501) residentpermit@bridgend.gov.uk neu dros y ffôn drwy’r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid Ffôn: 01656 646363 (dyfynnwch y cyfeirnod TRA001-1501).

Gwnaed y gorchymyn ar 11/02/2026 a bydd yn dod i rym ar 27/02/2026.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd unrhyw Orchymyn neu unrhyw un o'i ddarpariaethau ar y sail nad yw/ydynt yn unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf neu ar y sail nas cydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf, gall y person hwnnw, o fewn chwe wythnos o'r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

## ATODLEN 1
## (DYNODI MANNAU PARCIO DEILIAID TRWYDDED PRESWYLWYR)

Cae Dre Street, Pen-y-bont ar Ogwr

(i) Ar ochr y gorllewin, o bwynt 6 metr (7 llath) i'r gogledd o'r gyffordd â Park Street, am tua 16 metr (17 llath) i'r gogledd.
(ii) Ar ochr y gorllewin, o bwynt 41 metr (45 llath) i'r gogledd o'r gyffordd â Park Street, am tua 15 metr (16 llath) i'r gogledd.
(iii) Ar ochr y dwyrain, o bwynt 6 metr (7 llath) i'r gogledd o'r gyffordd â Park Street, am tua 16 metr (17 llath) i'r gogledd.
(iv) Ar ochr y dwyrain, o bwynt 41 metr (45 llath) i'r gogledd o'r gyffordd â Park Street, am tua 15 metr (16 llath) i'r gogledd.

Sunnyside Road, Pen-y-bont ar Ogwr

(i) Ar ochr y gorllewin, o'i therfyn yn y gogledd, am 73 metr (80 llath) i'r de.
(ii) Ar ochr y gorllewin, o bwynt yn unol â ffin eiddo 66 a 68 Sunnyside Road, am tua 32 metr (35 llath) i'r gogledd.
(iii) Ar ochr y dwyrain, o bwynt 2 fetr (2 lath) i'r gogledd o'r lôn fynediad rhwng 45 a 47, am tua 52 metr (57 llath) i'r gogledd.
(iv) Ar ochr y dwyrain, o bwynt 2 fetr i'r gogledd o'r gyffordd â Rice Street, am tua 31 metr (34 llath) i'r gogledd.

## ATODLEN 2
## (AROS CYFYNGEDIG 8AM-8PM – UCHAFSWM ARHOSIAD 2 AWR - DIM DYCHWELYD O FEWN 4 AWR) (DEILIAID TRWYDDED PRESWYLWYR WEDI'U HEITHRIO)

Cae Dre Street, Pen-y-bont ar Ogwr

(i) Ar ochr y gorllewin, o bwynt 22 metr (24 llath) i'r gogledd o'r gyffordd â Park Street, am tua 10 metr (11 llath) i'r gogledd.
(ii) Ar ochr y dwyrain, o bwynt 22 metr (24 llath) i'r gogledd o'r gyffordd â Park Street, am tua 12 metr (13 llath) i'r gogledd.

Sunnyside Road, Pen-y-bont ar Ogwr

(i) Ar ochr y gorllewin, o bwynt 2 fetr (2 lath) i'r gogledd o'r gyffordd â'r ffordd fynediad rhwng 52 a 54 Sunnyside Road, am tua 35 metr (38 llath) i'r gogledd.
(ii) Ar ochr y dwyrain, o bwynt 12 metr (13 llath) i'r de o'i therfyn yn y gogledd, am tua 20 metr (22 llath) i'r de.

## ATODLEN 3
## (GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG)

Sunnyside Road, Pen-y-bont ar Ogwr

(i) Ar ochr y dwyrain, o'i therfyn yn y gogledd, am tua 1 metr (1 llath) i'r gorllewin.
(ii) Ar ochr y dwyrain, o'i therfyn yn y gogledd, am tua 12 metr (13 llath) i'r de.
(iii) Ar ochr y dwyrain, o bwynt 32 metr (35 llath) i'r de o'i therfyn yn y gogledd, am tua 26 metr (28 llath) i'r de-ddwyrain, de, de-orllewin.

Ffordd Fynediad Sunnyside

(i) Ar ochr y de, o bwynt 7 metr (8 llath) i'r gorllewin o'r gyffordd â Sunnyside Road, am tua 35 metr (3 llath) i'r gorllewin.

## ATODLEN 4
## (AMRYWIO'R CYFYNGIAD GWAHARDD AROS AR UNRHYW ADEG PRESENNOL I GYFLWYNO CYFYNGIAD GWAHARDD AROS, LLWYTHO A DADLWYTHO AR UNRHYW ADEG)

Ffordd Fynediad Sunnyside

(i) Ar ochr y gogledd-ddwyrain, o bwynt 7 metr (8 llath) i'r gorllewin o'r gyffordd â Sunnyside Road, am tua 42 metr (45 llath) i'r gogledd-orllewin.
(ii) Ar ochr y gogledd-orllewin, o'r gyffordd â Datblygiad Sunnyside, am tua 8 metr (9 llath) i'r gogledd-ddwyrain.
(iii) Ar ochr y de, o'r gyffordd â Datblygiad Sunnyside, am tua 14 metr (15 llath) i'r dwyrain.

## ATODLEN 5

PARTH 2
CAE DRE STREET
SUNNYSIDE ROAD
FFORDD FYNEDIAD SUNNYSIDE

**Dyddiedig: 19/02/2026**

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.